# Cyfrannu at symud a thrin unigolion

## Trosolwg

**Ar gyfer pwy mae'r uned hon?**
Mae'r uned hon ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo disgyblion ag amhariadau corfforol drwy eu helpu i symud a/neu ail-leoli eu hunain.

**Am beth mae'r uned hon?**
Mae'r uned hon yn ymwneud â'r angen i allu symud, trin ac ail-leoli unigolion. Pan fyddwch chi’n symud ac yn trin unigolion, mae gennych chi gyfrifoldeb i wneud hynny'n ddiogel ac yn gywir i sicrhau eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill.

**Mae'r uned hon yn cynnwys dwy elfen:**

1. Paratoi unigolion, amgylcheddau a chyfarpar ar gyfer symud a thrin
2. Galluogi unigolion i symud o un safle i'r llall.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Paratoi unigolion, amgylcheddau a chyfarpar ar gyfer symud a thrin**

P1 golchi eich dwylo a gwneud yn siŵr eich bod yn gwisgo dillad ac esgidiau sy'n ddiogel ar gyfer symud a thrin unigolion

P2 cyn symud a thrin unigolion, gwirio'r cynllun gofal a'r asesiadau risg symud a thrin

P3 asesu unrhyw risgiau uniongyrchol i unigolion

P4 os ydych chi'n meddwl bod risg na allwch ddelio â hi, gofyn am gyngor gan y bobl briodol cyn symud neu drin unigolion

P5 cynorthwyo unigolion i gyfleu lefel y cymorth sydd ei angen arnynt

P6 cael cymorth gan y bobl briodol os bydd dewisiadau'r unigolyn yn gwrthdaro ag arfer diogel

P7 cyn symud a thrin unigolion, gwneud yn siŵr eich bod yn deall pam eu bod yn cael eu symud a'u trin mewn ffyrdd penodol a sut y gallant gydweithredu'n ddefnyddiol yn y weithdrefn

P8 dileu peryglon posibl a pharatoi'r man cyfagos ar gyfer y symudiad arfaethedig mewn cytundeb â phawb dan sylw

P9 dewis cyfarpar symud a thrin y cytunir arnynt, a gwneud yn siŵr ei fod yn ddiogel ac yn lân cyn ei ddefnyddio

P10 gofyn am gymorth priodol i'ch galluogi i symud a thrin yr unigolyn yn ddiogel

**Galluogi unigolion i symud o un safle i'r llall**

P11 rhoi cymorth ac anogaeth weithredol fel bod unigolion yn cyfrannu at y broses symud

P12 symud a newid safleoedd gan ystyried anghenion yr unigolyn, ei ddewisiadau a'i gyngor ar y dulliau a'r cyfarpar mwyaf priodol

P13 defnyddio dulliau symud a thrin sy'n briodol i gyflwr yr unigolyn, eich terfynau trin personol a'r cyfarpar sydd ar gael

P14 symud a newid safleoedd yr unigolyn mewn ffyrdd sy'n lleihau poen, anesmwythder a ffrithiant a rhoi cymaint o annibyniaeth, hunan-barch ac urddas â phosibl i'r unigolyn.

P15 os ydych chi'n symud ac yn newid safle'r unigolyn gyda chymorth rhywun arall, cydlynu eich camau â'u camau nhw

P16 ar ôl newid safleoedd, dychwelyd dodrefn a gosodiadau i'w lleoliad cywir

P17 dychwelyd cyfarpar symud a thrin i'w leoliad dynodedig gan wneud yn siŵr ei fod

yn lân, yn ddiogel ac yn barod i'w ddefnyddio yn y dyfodol
P18 golchi eich dwylo a sicrhau eich glendid a'ch hylendid eich hun ar ôl symud a lleoli unigolion
P19 arsylwi, cofnodi a rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw newidiadau arwyddocaol yng nghyflwr yr unigolyn pan fyddwch yn eu symud
P20 cofnodi manylion dulliau symud a thrin sy’n dderbyniol i’r unigolyn yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Gwerthoedd**

K1 gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu a hawliau wrth symud a thrin unigolion
K2 yr effaith y gall credoau a dewisiadau personol ei chael ar ddewisiadau'r unigolyn ar gyfer symud a thrin
K3 pam y dylid ystyried dewisiadau'r unigolyn ar sut maent yn cael eu symud a'u trin
K4 gwrthdaro posibl rhwng dewis unigol, arferion iechyd da, diogelwch a hylendid, asesiadau risg a rheolaeth a chynllun gofal yr unigolyn, a sut i ddelio â'r rhain
K5 sut i roi cymorth gweithredol a hyrwyddo hawliau, dewisiadau a lles yr unigolyn wrth symud a thrin unigolion

**Deddfwriaeth a pholisi a gweithdrefnau sefydliadol**

K6 codau ymarfer ac ymddygiad, a safonau a chanllawiau sy'n berthnasol i'ch rolau eich hun, cyfrifoldebau, atebolrwydd a dyletswyddau eraill wrth symud a thrin unigolion
K7 deddfwriaeth leol, y DU ac Ewropeaidd gyfredol, a gofynion, gweithdrefnau ac arferion sefydliadol ar gyfer:
K7.1 cyrchu cofnodion
K7.2 cofnodi, adrodd, cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys diogelu data
K7.3 iechyd, diogelwch, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â symud a thrin unigolion
K7.4 rheoli risg rhag haint
K7.5 gweithio'n agos gyda phobl sy’n symud ac yn trin unigolion
K8 sut i gael gafael ar gopïau cyfoes o asesiadau risg sefydliadol ar gyfer symud a thrin unigolion penodol

**Damcaniaeth ac arferion**

K9 newidiadau allweddol yn amodau ac amgylchiadau unigolion rydych chi'n eu symud a'u trin a’r camau i'w cymryd o dan yr amgylchiadau hyn
K10 gwahanol fathau o gyfarpar/peiriannau sydd ar gael ar gyfer symud a thrin
F11 ffactorau y mae angen eu hystyried wrth ddefnyddio cyfarpar/peiriannau symud a thrin
K12 pam mae’n bwysig paratoi'r amgylchedd ar gyfer symud a thrin unigolion cyn ceisio gwneud hynny

K13 pam mae’n bwysig defnyddio technegau symud diogel, cadw at asesiadau risg a gwybodaeth arall am symud a thrin unigolion penodol a'r goblygiadau posibl i'r unigolyn, eich hun ac eraill os na wnewch chi hynny
K14 risgiau posibl i unigolion, y rhai sy'n helpu i symud a thrin; eraill yn yr amgylchedd a'r amgylchedd ei hun os na chaiff symud a thrin ei wneud yn gywir (gan gynnwys gweithdrefnau cyn, yn ystod ac ar ôl i chi symud a thrin unigolion)
K15 ffynonellau cymorth pellach ar gyfer symud a thrin unigolion mewn gwahanol leoliadau iechyd a gofal
K16 pam mae unigolion yn cael eu symud i wahanol safleoedd
K17 sut i gydlynu camau wrth symud a thrin yn rhan o dîm
K18 pam na ddylid llusgo unigolion a sut mae hyn yn gysylltiedig ag atal doluriau gwasgu
K19 pam y dylid ailosod yr amgylchedd ar ôl newid safle
K20 pam mae’n bwysig cynnal eich glendid a'ch hylendid eich hun cyn, yn ystod ac ar ôl symud a thrin unigolion

## Cwmpas/Ystod

1. **Cyfathrebu drwy** ddefnyddio:
1.1 yr iaith lafar sydd orau gan yr unigolyn
1.2 arwyddion
1.3. symbolau
1.4. lluniau
1.5. ysgrifennu
1.6. gwrthrychau cyfeirio
1.7. pasportau cyfathrebu
1.8. ffurfiau cyfathrebu di-eiriau eraill
1.9. cymhorthion dynol a thechnolegol i gyfathrebu.
2. **Gall cyfarpar symud a thrin gynnwys:**
2.1. teclynnau codi
2.2. sleidiau
2.3. llieiniau sleidiau
2.4. slingiau
2.5. gobenyddion.

## Geirfa